

# Y Nadolig

## Darllen: Luc 2:33–35

Prin iawn ydi'r hanesion am Iesu'n tyfu i fyny. Yn wir, dim ond un stori sydd amdano. Yn fachgen deuddeg oed aeth gyda'i rieni i'r deml yn Jerwsalem, a mynd ar goll. Bu Mair a Joseff mewn cryn helbul yn chwilio amdano, ac yntau wedi aros i drin a thrafod efo'r gwybodusion yn y deml a hwythau wedi rhyfeddu ato. Ond mae dwy adnod yn ail bennod Efengyl Luc yn sôn amdano'n tyfu, y naill yn cyfeirio at ei gryfder a'i ddoethineb a'r llall yn dweud bron yr un peth ond mewn ffordd arall. Mae'r ddwy adnod yn sôn am ei berthynas â Duw; 'ac yr oedd ffafr Duw arno' (adnod 40), 'ac yr oedd Iesu yn cynyddu mewn ... ffafr gyda Duw a'r holl bobl' (adnod 52). Pwysleisio a wna Luc fod y plentyn yn tyfu a datblygu. Ac onid ydyn ni'n amharod i weld ein plant yn tyfu. Onid y sylwadau a glywn heddiw yw 'Dydyn nhw ddim yn cael bod yn blant y dyddiau hyn', a'r perygl mawr yw y byddwn yn eu trin fel plant ar ôl iddyn nhw dyfu'n oedolion.

Ond dowch yn ôl at y baban yn y preseb ym Methlehem. Onid oes yna ddyhead ynom i'w weld yn aros yn faban yn y preseb? Onid ydym yn teimlo rheidrwydd i'w gadw yn y preseb – yn faban bach 'ciwt' a thyner yn y preseb gwair? Ac wrth gwrs, tra bydd o yno'n swp diymadferth fydd o ddim yn ein herio â'i ddysgeidiaeth chwyldroadol nac yn poeni ein cydwybod. A dweud y gwir, yno yr ydyn ni am ei adael gan wrthod iddo dyfu a datblygu a dod yn Waredwr ein bywydau. Dyna'r unig Iesu mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei adnabod – Iesu'r preseb a'r bugeiliaid, y seryddion a Herod Fawr. Ac mae teip Herod bob amser yn awyddus i'w adael yn faban diymadferth yn y preseb.

Ond y mae bendith i'w chael o gyrchu at y preseb bob Nadolig. Ond bendith dros dro yw hi, bendith sy'n ein galw i waith. Mae'n bur debyg mai felly oedd hi'r Nadolig cyntaf hwnnw. Dyna ddigwyddodd i'r bugeiliaid ar fryniau Bethlehem – côr o angylion yn cyhoeddi'r newyddion

da, a'r bugeiliaid yn mynd ar frys i weld beth oedd wedi digwydd a chanfod gobaith yr oesoedd yn y preseb. Ond nid lle i aros yno oedd y preseb, ond lle i brofi'r wefr cyn mynd yn ôl at eu gwaith i wyllo'r praidd liw nos. Profiad tebyg gafodd y seryddion oedd wedi teithio o bell i Jwdea gan ddilyn seren wahanol. Ond wedi'r profiad o weld y Mab bychan, yn ôl yr aethant hwythau ar eu taith i'w gwlad eu hunain. A beth am ei rieni wedyn? Profiad tawel, annealladwy oedd eu profiad hwy, 'ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt' (Luc 2:19). Cadw'r profiad yn ei chalon wnaeth hi er mwyn cael myfyrio arno ymhellach ymlaen. Doedd hi ddim yn barod i blymio i ddyfnderoedd gwyrth Bethlehem dref. Ond mynd ymlaen fu raid iddynt hwythau hefyd, a hynny ar frys i'r Aifft. Beth oedd ar ôl ym Methlehem? Dim ond preseb gwag. Mae o wedi tyfu a phrifio, a dyna drefn natur. Peidiwn ag aros wrth y preseb. Awn gydag ef ar antur, a bydd y bendithion yn llifo wrth i ni fod yn ei gwmni.

### **Myfyrdod pellach:**

Ydyn ni'n rhoi gormod o bwyslais ar Iesu'r baban yn y preseb?

Sut mae gwneud y Nadolig yn berthnasol i'n cyfnod ni?